# PWYLLGOR CYNLLUNIO

Dydd Iau, 3 Chwefror 2022

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd A. Lenny (Cadeirydd)

**Y Cynghorwyr:**
S.M. Allen, J.M. Charles, D.M. Cundy, I.W. Davies, J.A. Davies, W.T. Evans, S.J.G. Gilasbey, J.K. Howell, J.D. James, J.P. Jenkins, C. Jones, H.I. Jones, M.J.A. Lewis, K. Madge, B.D.J. Phillips, G.B. Thomas a/ac J.E. Williams

**Hefyd yn bresennol:**
Y Cynghorydd Hazel Evans, a fu'n annerch y Pwyllgor ynghylch cais cynllunio PL/03049.

**Yr oedd y swyddogion canlynol yn gwasanaethu yn y cyfarfod:**
R. Griffiths, Pennaeth Lle a Chynaliadwyedd
I.R. Llewelyn, Rheolwr Blaen-gynllunio
J. Thomas, Uwch Swyddog Rheoli Datblygu (Aman Gwendraeth)
S. Murphy, Uwch-gyfreithiwr
H. Rice, Swyddog Rheoli Datblygu
P. Roberts, Swyddog Rheoli Datblygu
Z.A. Evans, Uwch-dechnegydd [Cyswllt Cynllunio]
M. Evans Thomas, Prif Swyddog Gwasanaethau Democrataidd
E. Evans, Prif Swyddog Gwasanaethau Democrataidd
E. Bryer, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd
J. Owens, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd
A. Eynon, Prif Gyfieithydd

**Rhith Gyfarfod - 10.00 yb - 12.36 yp**

## 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Cafwyd ymddiheuriad am absenoldeb gan y Cynghorydd J.A. Davies. [SYLWER: Roedd y Cynghorydd J.A. Davies yn bresennol o 11:20].

## 2. DATGAN BUDDIANNAU PERSONOL

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau personol.

## 3. PENDERFYNU AR GEISIADAU CYNLLUNIO

**3.1 PENDERFYNWYD caniatáu'r ceisiadau cynllunio canlynol yn amodol ar yr amodau yn Adroddiad/Atodiad y Pennaeth Cynllunio a/neu y rhoddwyd gwybod amdanynt yn y cyfarfod:-**

| | |
|---|---|
| **PL/01154** | **Datblygiad preswyl ar dir ger Heol Glyndwr, Pont-iets**<br><br>(Sylwer: mae caniatâd hefyd yn ddarostyngedig i Gytundeb Adran 106).<br>Gofynnwyd am i'r cyfraniad a ddeilliai o Gytundeb Adran 106 gael ei roi tuag at barc chwarae gerllaw'r orsaf danwydd yn y pentref. |

| | |
|---|---|
| **PL/02213** | **Cais am faterion a gadwyd yn ôl ar gyfer 2 breswylfa a rhyddhau amodau cysylltiedig 5, 9, 10 a 12 caniatâd cynllunio amlinellol W/32038 (preswylfeydd fforddiadwy (tai eithrio) (ailgyflwyno cais W/29836) ar dir ger y Stryd Fawr, Llansteffan, Caerfyrddin, SA33 5JN.**<br><br>(Sylwer: mae'r caniatâd cynllunio amlinellol a roddwyd yn flaenorol yn ddarostyngedig i Gytundeb Adran 106).<br><br>Mewn ymateb i gais, cadarnhaodd y Rheolwr Blaen-gynllunio y byddai'r Cynllun Tai Fforddiadwy yn cael ei ystyried fel rhan o'r adolygiad parhaus o ddarparu hyfforddiant i Gynghorau Cymuned er mwyn sicrhau bod aelodau'n cael y wybodaeth ddiweddaraf am ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â chynllunio.<br><br>Cafodd cais ei wneud am i faterion yn ymwneud ag effaith y datblygiad o safbwynt draenio dŵr arwyneb gael eu hystyried yn llawn gan yr Awdurdod. |
| **PL/02798** | **Newid a helaethu'r Pinewood Lodge. Ailgyflwyno cais ar gyfer PL/01052 a wrthodwyd yn flaenorol, Pinewood Lodge, Bronwydd, Caerfyrddin, SA33 6BE.** |
| **PL/03011** | **Estyniad i breswylfa gan gynnwys dymchwel rhan o breswylfa flaenorol (ôl-weithredol), Castell Teifi, Cwm-ann, Llanbedr Pont Steffan, SA48 8JN.** |
| **PL/03049** | **Cais am adeiladu adeilad ar wahân newydd i'w ddefnyddio mewn cysylltiad â'r busnes storio menter wledig presennol a fydd yn creu lle storio/unedau storio ychwanegol ar y llawr gwaelod isaf a swyddfa a man hamdden ar y llawr gwaelod uchaf, Dragon Guard Storage, Heol Capel Iwan, Castellnewydd Emlyn, SA38 9LP.**<br><br>Cafwyd sylw gan aelod lleol yn cefnogi'r cais ar sail yr arfarniad a nodwyd yn adroddiad ysgrifenedig y Pennaeth Cynllunio. Yn benodol, mynegodd yr aelod lleol na fyddai'n peri unrhyw niwed i gymeriad a golwg yr ardal; ni fyddai unrhyw ofynion draenio ac yn ogystal, bwriad y cynnig oedd gwneud y defnydd gorau o'r safle er mwyn bodloni'r galw a nodwyd, heb unrhyw effaith andwyol ar amodau byw trigolion cyfagos.<br><br>Ymatebodd y Swyddog Rheoli Datblygu i'r materion a godwyd wrth i'r adroddiad gael ei ystyried. |

**4. LLOFNODI YN GOFNOD CYWIR GOFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 6ED IONAWR, 2022.**

**PENDERFYNWYD llofnodi cofnodion cyfarfod y Pwyllgor a gynhaliwyd ar 6 Ionawr 2022 gan eu bod yn gywir.**

___________________________ ____________________

**CADEIRYDD** **DYDDIAD**

[SYLWER: *Mae'r cofnodion hyn yn dilyn trefn y materion oedd ar agenda'r cyfarfod, a allai fod yn wahanol i drefn y materion mewn unrhyw weddarllediad gan y byddid wedi ymdrin gyntaf ag unrhyw geisiadau yr oedd aelodau o'r cyhoedd yn bresennol i siarad amdanynt.*]